

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 30 Mehefin 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, Meirion Jones, A. Williams, E. Parry, B. Jones, D. Williams.
Dafydd Owen (clerc) J. Evans (Cynghorwr Sirol)

1. Ymddiheuriadau: Mervyn Jones,

2. Datganiadau Diddordeb.

- 2.1 Mi ddatganwyd diddordeb gan B. Jones yn eitem 11.1, cais cynllunio
- 2.2 Mi ddatganwyd diddordeb gan G. Parry yn eitemau yn gysylltiedig â'r clwb bowlio
- 2.3 Mi ddatganwyd diddordeb gan A. Jones yn eitemau yn gysylltiedig â'r clwb bowlio

3. Cyfrifon mis Mehefin 2015

- 3.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

4. Materion y Cyngor Sir

- 4.1 J. Evans yn nodi fod y broses arfarnu swyddi wedi'i basio gan y Cyngor Sir.
- 4.2 Nodwyd fod cyfarfod am ei gynnal i drafod cau Cartref Heulfre yn Llangoed

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26 Mai 2015

- 5.1 J. Roberts yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi

- 6.1 Twr Marcwis - Cyngor Bro i bwysu am ymateb swyddogol gan asiant Stad Plas Newydd. Yn y cyfamser E. Parry yn nodi ei fod yn meddwl fod y tir hwn yn rhan o'r un mae o'n ei gynnal ac am ymweld â'r safle i baratoi asesiad risg ar gyfer gweithredu yno.
- 6.2 Plac ar dy Kyffin Williams - Clerc i ysgrifennu at asiant Plas Newydd i weld os mae'n nhw yn fodlon cael plac ar y tŷ neu'r stiwdio.
- 6.3 Paentio'r Neuadd Goffa - E. Parry yn nodi ei fod gyda chyd weithiwr sydd yn bwriadu gwneud gwaith cynnal a chadw ar y difrod bach i'r waliau yn y cyntedd.
- 6.4 Grid Cenedlaethol - H. Huws yn nodi fod llythyr deiseb wedi'i baratoi yn gwrthwynebu cynnig y Grid Cenedlaethol. G. C. Jones am gael pris ar gyfer argraffu rhai er mwyn cael dosbarthu o gwmpas y pentref yn hel cefnogaeth.
- 6.5 Bwrdd Iechyd - A. Mummery wedi trafod gyda Linda West, ac yn disgwyl iddi drafod gyda'i uwch swyddogion ac i roi diweddariad i'r Cyngor Bro.
- 6.6 Llwybr beicio - H. Huws am baratoi adroddiad er mwyn hysbysu Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.
- 6.7 Cysgodfa Bws a Swyddfa'r Cyngor Bro - Archeb wedi ei rhoi i'r contractwr ac yn disgwyl iddo weithredu.
- 6.8 Cyflenwad trydan y Clwb Snwcer - Clwb snwcer am alw cyfarfod i benodi swyddogion newydd ac yno am gyfarfod gyda'r Cyngor Bro gyda'i bwriad am y dyfodol.
- 6.9 Maes Amlbwrpas - Clerc am baratoi hysbyseb erbyn canol Awst ar gyfer Papur Menai Mis Medi i weld os oes galw am ddefnyddio'r safle.
- 6.10 Mainc Newydd - Clerc i roi archeb newydd i mewn am fainc newydd arall i'r Maes Chwarae.

7. Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 09 Mehefin 2015

- 7.1 A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

8. Materion yn codi

- 8.1 A. Mummery yn nodi fod y swyddog ardal ddi-fwg am fynd o gwmpas y pentref yn ddsbarthu posteri.

8.2 Trefniadau Nadolig - Clerc i ofyn i Now Parry am bris i wneud cysylltiad trydan yn y cloc ar gyfer goleuadau.

8.3 Trefniadau Nadolig - A. Jones a A. Mummery am wneud ymholiadau i weld beth yw'r posibilrwydd o gael caniatâd gosod coeden nadolig yn gornel y maes parcio.

9. Penodi pwy sydd yn gyfrifol am reoli'r cadeiriau a byrddau yn y Neuadd Goffa

9.1 Cytunwyd mai Gofalwr y Neuadd Goffa sydd yn gyfrifol am ddefnydd y cadeiriau a byrddau. A. Mummery yn nodi fod os oes angen mae yno gadeiriau ar gael yn y Clwb Pêl droed. A. Mummery hefyd yn llongyfarch y clwb pêl droed iau ar lwyddiant twrnaint diweddar a hefyd ar lwyddiant o aelodi chwaraewyr lleol.

10 Cynnal a chadw gwllâu blodau

10.1 A. Jones, A. Mummery a G. Parry wedi cyfarfod gyda dynes arddwriaethol sydd yn cynnig cynnal a chadw'r gwllau blodau yn barhaol am £12.50 yr awr. Cytunwyd gan bawb i ofyn iddi weithredu.

11. Ceisiadau Cynllunio

11.1 31C414A - Cais llawn ar gyfer codi annedd, dymchwel y garej bresennol ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger Carreg y Gad, Ffordd Penmynydd - Nodwyd fod B. Jones yn gadael yr ystafell cyn trafod yr eitem yma. Cytunwyd bod dim sylw gan y Cyngor Bro. Fe ddychwelodd B. Jones yn ôl i'r ystafell.

11.2 31C196B/LB - Cais am Ganiatad Adeilad Rhestredig ar gyfer gosod trawstiau FRP a chromfachau cefnogi i'r agoriad addurniadol ar Bont Britannia - Dim sylw

11.3 31C425 - Cais llawn ar gyfer addasu ag ehangu yn 27 Ffordd Gwenllian - Cytunwyd bod dim gwrthwynebiad cyn belled â nad oes gormod o amhariaeth ar drigolion cyfagos.

11.4 31C357C - Cais llawn i ddymchwel sied bresennol ynghyd a chodi bloc stabl newydd yn Siglan Bach, Lon Dyfnia - Dim sylw.

12. Gohebiaeth

12.1 Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth

12.2 The Pension Regulator - Enwebu Cyswllt a llyfryn gwybodaeth - Cytunwyd i enwebu'r clerc fel cyswllt

12.3 Scottish Power - Llythyr a siec taliad am Wayleave - Derbyn y wybodaeth a thaliad

12.4 National Grid - Newyddion i'r Gymuned - Derbyn y wybodaeth

12.5 Ombwdsman - Adroddiad Blynyddol - Derbyn y wybodaeth

12.6 Llythyr Ymddiswyddiad Alice Thomas - Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch iddi am ei gwasanaeth, a chlerc i gysylltu gyda CSYM i'w hysbysu bod y sedd yn wag.

12.7 Llythyr Dwr Cymru ynghlyn a gwaith yn y clwb bowlio - Ddatganwyd diddordeb gan A. Jones a G. Parry yn yr eitem yma. Dwr Cymru yn cadarnhau fod gwaith angenrheidiol angen ei wneud i'r cyflenwad dwr. Cytunwyd mai'r Cyngor Bro sydd yn gyfrifol ac i ofyn i Andre Le Cras i weithredu.

12.8 Llythyr gan y clwb bowlio yn gofyn am ganiatad i wneud gwaith i greu cysgodfa newydd er cof am Hwfa a Beryl Roberts. Ddatganwyd diddordeb gan A. Jones a G. Parry yn yr eitem yma. Cytunwyd i roi caniatâd i'r clwb bowlio wneud y gwaith.

12.9 Llythyr yn ceisio am y sedd wag yn y Cyngor Bro - A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio i gynnig y sedd i Mr David James.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Gorffennaf 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)Dyddiad